cyllid myfyrwyr cymru

Canllaw i gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan-amser

yn 2008/09

buddsodda yn dy ddyfodol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

SFW/FSPT/V8

Cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad	Tudalen 4
	• Ble i wneud cais • Newidiadau i'r cymorth i fyfyrwyr rhan-amser yn 2008/09	
Adran 2	Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer 2008/09?	Tudalen 7
	• Grant ffioedd • Grant cwrs • Myfyrwyr sydd ag anabledd • Help ychwanegol sydd ar gael gan eich coleg	
Adran 3	Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu	Tudalen 11
	• A fyddaf yn gymwys i gael grant rhan-amser? (Siart llif) • Cymhwystra • Asesu faint o help y byddwch yn gallu ei gael	
Adran 4	Pryd a sut i wneud cais	Tudalen 17
Adran 5	Pa gymorth arall sydd ar gael?	Tudalen 19
	• Help i fyfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau rhan-amser yn 2008/2009 • Help i fyfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau rhan-amser sy'n werth 30-59 o gredydau • Help i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig	
Adran 6	Beth fydd yn digwydd os byddaf wedi cael benthyciad myfyrwyr yn y gorffennol?	Tudalen 21
Adran 7	A fydd modd i mi hawlio budd-daliadau o hyd?	Tudalen 22
Adran 8	Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n fyfyriwr o'r UE?	Tudalen 23
Adran 9	Yr hyn i'w wneud os nad ydych yn fodlon	Tudalen 24
Adran 10	Cysylltiadau defnyddiol	Tudalen 26
Atodiadau		Tudalen 28

1 Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r help ariannol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gynnig i fyfyrwyr rhan-amser y maent yn byw yng Nghymru fel arfer (os ydynt yn astudio yng Nghymru, yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon). Mae'n berthnasol i flwyddyn academaidd 2008/09 yn unig.

Diben y canllaw hwn yw cynnig arweiniad yn unig ac nid yw'n delio â phob sefyllfa. Dylai myfyrwyr rhan-amser gysylltu â'u coleg neu swyddfa cyllid myfyrwyr eu hawdurdod lleol am ragor o wybodaeth. SYLWER: Gallai'r ffigurau a ddyfynnir yn y canllaw hwn newid.

Mae'r wybodaeth a nodir yn y canllaw hwn ynghylch y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn berthnasol i golegau yng Nghymru yn unig. Ni chaiff colegau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cynnwys yn y cynllun hwn, ond efallai y byddant yn gallu cynnig help tebyg.

Yn y canllaw hwn, mae'ch 'coleg' yn golygu'r sefydliad lle'r ydych yn ystyried dilyn cwrs addysg uwch ynddo. Gall hwn fod yn goleg neu'n brifysgol.

1 Cyflwyniad

Ble i wneud cais

Dinasyddion y DU
Ceir trefniadau gwahanol gan ddibynnu lle'r ydych yn byw fel arfer. Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, bydd trefniadau 'Cyllid Myfyrwyr Cymru' yn berthnasol, beth bynnag fo'ch dinasyddiaeth neu'r man lle'r ydych yn bwriadu astudio yn y DU.

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, bydd yr awdurdod lleol lle'r ydych yn byw fel arfer yn ystyried eich cais, hyd yn oed os byddwch yn astudio mewn man y tu allan i'r ardal honno. Gellir gweld manylion cyswllt ALlau yn y llyfr ffôn neu drwy droi at y cyswllt isod ar ein gwefan. Yn ogystal, gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845. Mae ar agor rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn. Neu, gallwch ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Os hoffech ddilyn un o gyrsiau'r Brifysgol Agored, bydd y Brifysgol Agored yn delio â cheisiadau ei myfyrwyr am y grant ffioedd, y grant cwrs a'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. Os bydd angen unrhyw wybodaeth neu gymorth ariannol arnoch gan y Brifysgol Agored, dylech anfon e-bost at ei thîm Cymorth Ariannol: general-enquiries@open.ac.uk neu ei ffonio ar 01908 653411.

Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer, bydd yr awdurdod lleol (ALl) yr ydych yn byw yn ei ardal fel arfer, yn ystyried eich cais, hyd yn oed os byddwch yn astudio y tu allan i'r ardal honno.

Ond, os ydych yn byw yn unrhyw un o'r ALlau a restrir isod, bydd angen i chi gysylltu â Swyddfa Cymorth Cwsmeriaid yr SLC ar 0845 6077577 i wneud eich cais cychwynnol am gymorth. Ni fydd eich ALl yn ymwneud â'r broses ymgeisio eleni a bydd angen i chi gysylltu â'r SLC os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

- Bwrdeistref Brent, Llundain
- Cyngor Bwrdeistref Darlington
- Bwrdeistref Hackney, Llundain
- Cyngor Bwrdeistref Hartlepool
- Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
- Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland
- Cyngor De Tyneside
- Cyngor Bwrdeistref Southend-on-Sea
- Bwrdeistref Southwark, Llundain
- Cyngor Bwrdeistref Stockton-on-Tees
- Cyngor Dinas Efrog

Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar eich cymhwystra i gael cymorth.

Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer, dylech gysylltu ag Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban i gael gwybodaeth am y trefniadau yn yr Alban. Ei gyfeiriad yw:

The Student Awards Agency for Scotland
Gyleview House
3 Redheughs Rigg
South Gyle
Edinburgh
EH12 9HH.

Ffôn: 0845 111 1711
E-bost: saas.geu@scotland.gsi.gov.uk
Gwefan: www.saas.gov.uk

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon fel arfer, dylech gysylltu â'r Bwrdd Llyfrgell ac Addysg ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi fel arfer. Gallwch weld manylion cyswllt ar gyfer y Byrddau Llyfrgell ac Addysg trwy droi at y wefan sef www.studentfinanceni.co.uk.

Dinasyddion eraill yr UE

Os ydych yn ddinesydd yr UE (hynny yw, yn ddinesydd un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd), neu'n ŵr, yn wraig, yn bartner sifil neu'n blentyn dinesydd yr UE ac os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser mewn coleg yng Nghymru, mae adran 8, sy'n cychwyn ar dudalen 23, yn cynnwys gwybodaeth am y trefniadau cymorth ariannol ar eich cyfer. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

The EU Customer Services Team
PO Box 89
Darlington
County Durham
DL1 9AZ.

Ffôn: 0141 243 3570 (10yb tan 4yh)
Gwefan: www.direct.gov.uk
E-bost: EU_Team@slc.co.uk

Nid yw'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr a fydd yn cael bwrsariaeth GIG ar gyfer eu cwrs. Os byddwch yn cael bwrsariaeth GIG, neu os ydych yn bwriadu gwneud cais am un, dylech gysylltu â'ch coleg am fanylion ynghylch y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser dan Gynllun Bwrsariaeth GIG.

Os ydych yn fyfyriwr amser llawn, neu os ydych yn dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon rhan-amser, dylech ddarllen y llyfryn 'Canllaw i gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2008/2009'. (I gael copi, ffoniwch 0800 731 9133, gan ddyfynnu cyfeirnod SFW/FSHE/V8.)

Gall myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon rhan-amser wneud cais am fenthyciad myfyrwyr, a chymorth arall o bosib, sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn.

Ceir trefniadau ar wahân o ran ffioedd cyrsiau ar gyfer **myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon** sy'n dilyn cyrsiau TAR **hyblyg** gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar 029 20471170 am fanylion pellach.

1 Cyflwyniad

Newidiadau i'r cymorth i fyfyrwyr rhan-amser yn 2008/2009

Grant Ffioedd

Bydd myfyrwyr israddedig rhan-amser sy'n astudio gwerth o leiaf 50% o gwrs amser llawn cyfatebol (bydd eich coleg yn gallu dweud wrthych os bydd eich cwrs yn un cymwys), yn gymwys i gael Grant Ffioedd, gan ddibynnu ar incwm eich cartref. Bydd eich ALl yn cyfrifo'r swm y gallwch ei gael.

Yn 2008/09, bydd tair cyfradd yn bodoli ar gyfer y grant ffioedd, gan ddibynnu ar ddwyster eich cwrs. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gallai myfyriwr sy'n astudio cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% - 59% o'r cwrs amser llawn gael grant ffioedd o hyd at £620 y flwyddyn ar gyfer 2008/09.
- Gallai myfyriwr sy'n astudio cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 60% - 74% o'r cwrs amser llawn gael grant ffioedd o hyd at £745 y flwyddyn ar gyfer 2008/09.
- Gallai myfyriwr sy'n astudio cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 75% neu fwy o'r cwrs amser llawn gael grant ffioedd o hyd at £930 y flwyddyn ar gyfer 2008/09.

Dylid nodi, fodd bynnag, ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n byw yng Nghymru fel arfer ac sy'n astudio yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, bydd y grantiau ffioedd a roddir i'r myfyrwyr hyn yn debyg i'r symiau y bydd myfyriwr rhan-amser sy'n byw ac sy'n astudio yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon yn eu cael. Mae adran 2 yn cynnwys mwy o fanylion am hyn.

Grant Cwrs

Yn ogystal, gall myfyrwyr rhan-amser wneud cais am gymorth i dalu costau sy'n gysylltiedig â'u cwrs, a fydd yn werth hyd at £1,050 y flwyddyn yn ychwanegol i'r grant ffioedd.

2 Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer 2008/2009?

Bydd yr adran hon yn nodi'r gwahanol fathau o help sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser.

Pa help sydd ar gael?

I'r rhan fwyaf o fyfyrwyr cymwys, bydd y mathau canlynol o help ar gael

- Grant ffioedd o hyd at £930.
- Grant cwrs o hyd at £1,050.

Er mwyn bod yn gymwys i gael grant ffioedd a grant cwrs, rhaid i'ch cwrs gyfateb ag o leiaf 50% o gwrs amser llawn cyfatebol (hynny yw, ni ddylai gymryd mwy na dwywaith yr amser i'w gwblhau ag y byddai'r cwrs amser llawn yn ei gymryd). Ni fyddwch yn gymwys i gael grant ffioedd neu grant cwrs os ydych yn meddu ar radd eisoes. Bydd swm yr help y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm. Gallwch wneud cais am y grant cwrs a'r grant ffioedd gan ddefnyddio un ffurflen. Ni osodir cyfyngiad oedran ar unrhyw rai o'r grantiau hyn.

Gallwch wneud cais am gymorth am hyd at wyth mlynedd. Mae hyn oherwydd ei bod yn gallu cymryd pedair blynedd i gwblhau rhai cyrsiau gradd amser llawn, felly fe allai gymryd wyth mlynedd i gwblhau'r cwrs rhan-amser cyfatebol.

Mae adran 3, gan gychwyn ar dudalen 11, yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gymhwystra a sut y byddwch yn cael eich asesu.

Gwybodaeth bwysig

Efallai y bydd modd i chi gael help gan eich coleg hefyd trwy gyfrwng y Cronfeydd Ariannol wrth Gefn – gweler 'Help ychwanegol sydd ar gael gan eich coleg' ar dudalen 10.

Efallai y bydd modd i fyfyrwyr sydd ag anabledd gael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl – gweler yr adran ynghylch 'Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl' ar dudalen 9.

Efallai y bydd modd i f**yfyrwyr y mae ganddynt blant neu oedolion dibynnol** hawlio cymorth ychwanegol. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol neu Ganolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Grant Ffioedd

Pwy sy'n gymwys?	Myfyrwyr rhan-amser sy'n dilyn cwrs addysg uwch ac y mae eu cwrs yn cyfateb ag o leiaf 50% o gwrs amser llawn cyfatebol. Fel arfer, ni fydd modd i fyfyrwyr y maent ganddynt radd yn barod wneud cais am yr help hwn. Ni cheir cyfyngiad o ran oedran. (Gweler nodyn 1 isod hefyd.)
Faint?	Hyd at £930 gan ddibynnu ar ddwyster eich cwrs. Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm. Os bydd eich cwrs yn cyfateb â rhwng 50% a 59% o'r cwrs amser llawn cyfatebol, yr uchafswm y bydd modd i chi ei gael o ran grant ffioedd fydd £620, neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg. Os bydd eich cwrs yn cyfateb â rhwng 60% a 74% o'r cwrs amser llawn cyfatebol, yr uchafswm y bydd modd i chi ei gael o ran grant ffioedd fydd £745, neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg. Os bydd eich cwrs yn cyfateb â 75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol, yr uchafswm y bydd modd i chi ei gael o ran grant ffioedd fydd £930, neu gost y ffioedd a godir gan eich coleg.
Sut fydd yn cael ei dalu?	Yn uniongyrchol i'ch coleg.
A fydd yn rhaid ei ad-dalu?	Na fydd.

Nodyn 1

Efallai y bydd modd i chi gael help ariannol os ydych yn astudio cwrs sy'n para blwyddyn academaidd o leiaf ac os yw'n cyfateb â 50% neu fwy o gwrs amser llawn cyfatebol (er enghraifft, cwrs lle'r ydych yn astudio am 60 o bwyntiau neu gredydau o leiaf yn ystod blwyddyn academaidd). Efallai y byddwch yn gymwys i fanteisio ar y cymorth canlynol os na fydd eich cwrs yn cymryd mwy na dwywaith yr amser y byddai'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs amser llawn cyfatebol.

2 Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer 2008/2009?

Grant Cwrs

Pwy sy'n gymwys?	Myfyrwyr rhan-amser sy'n dilyn cwrs addysg uwch ac y mae'r cwrs yn cyfateb ag o leiaf 50% o'r cwrs amser llawn cyfatebol. Fel arfer, ni fydd modd i fyfyrwyr y mae ganddynt radd yn barod wneud cais am yr help hwn. Ni cheir cyfyngiad o ran oedran.
Faint?	Hyd at £1,050 i dalu am lyfrau, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm.
Sut fydd yn cael ei dalu?	Yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc fel un cyfandaliad.
A fydd yn rhaid ei ad-dalu?	Na fydd.

Crynodeb o'r cymorth sydd ar gael

Dwyster eich cwrs	Uchafswm y grant ffioedd	Uchafswm y grant cwrs	Cyfanswm uchaf o ran cymorth
50% i 59% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£620	£1,050	£1,670
60% i 74% o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£745	£1,050	£1,795
75% neu fwy o'r cwrs amser llawn cyfatebol	£930	£1,050	£1,980

2 Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer 2008/2009?

Sut y caiff 'dwyster' eich cwrs ei gyfrifo

Bydd swm y grant ffioedd y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar ddwyster eich cwrs (hynny yw, eich cyfradd astudio).

Bydd eich cyfradd astudio ar gyfer eich cwrs yn cael ei gyfrifo trwy rannu nifer y blynyddoedd academaidd y mae'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs amser llawn cyfatebol fel arfer, gyda nifer y blynyddoedd y byddwch yn eu treulio yn astudio'r cwrs rhan-amser. Yna, caiff y ffigwr hwn ei luosi gyda 100 er mwyn nodi dwyster y cwrs fel canran.

Os byddwch yn astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 75% o'r cwrs amser llawn cyfatebol, gallech fod yn gymwys i gael grant ffioedd uwch na myfyriwr sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o'r cwrs amser llawn cyfatebol.

Enghreifftiau

Os byddwch yn cymryd pum mlynedd i gwblhau cwrs a fyddai'n cymryd tair blynedd i'w gwblhau fel cwrs amser llawn, byddech yn cael eich ystyried fel myfyriwr sy'n astudio ar gyfradd o 60% (3/5 X 100 = 60%) o ran dwyster.

Os byddwch yn cymryd pedair blynedd i gwblhau cwrs a fyddai'n cymryd tair blynedd i'w gwblhau fel cwrs amser llawn, byddech yn cael eich ystyried fel myfyriwr sy'n astudio ar gyfradd o 75% (3/4 X 100 = 75%) o ran dwyster.

Gallwch amrywio dwyster eich cwrs. Os byddwch yn cysylltu â'ch awdurdod lleol cyn i chi gychwyn ar eich cwrs, gan nodi'r patrwm astudio yr ydych yn bwriadu ei ddilyn, byddant yn gallu'ch hysbysu ynghylch lefel y cymorth sydd ar gael i chi.

Myfyrwyr sydd ag anabledd

Os oes gennych anabledd neu anhawster dysgu penodol ac yn astudio ar gyfradd sy'n cyfateb ag o leiaf 50% o'r cwrs amser llawn cyfatebol, efallai y byddwch yn gallu cael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs).

Gall DSAs helpu i dalu'r costau ychwanegol y byddwch yn eu hwynebu (o ran astudio cwrs addysg uwch) o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd neu'ch anhawster dysgu penodol. Er enghraifft, gall y lwfansau helpu i dalu am offer arbenigol, cynorthwy-ydd personol anfeddygol, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwrs. Ni fydd DSAs yn dibynnu ar eich incwm a ni fydd yn rhaid i chi eu had-dalu.

Ni cheir cyfyngiad oedran er mwyn gwneud cais am DSAs. Fodd bynnag, i wneud cais am DSAs, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar wahân i'r un y byddwch yn ei llenwi i wneud cais am y grant ffioedd a'r grant cwrs.

Mae'r llyfryn 'Pontio'r bwlch: canllaw i Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch' yn cynnwys rhagor o wybodaeth. Gallwch gael copïau o'r canllaw hwn gan eich awdurdod lleol neu drwy ffonio ein llinell archebu yn rhad ac am ddim ar 0800 731 9133.

Yn ogystal, gallwch lawrlwytho'r canllaw o'n gwefan (www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk).
Gallwch gael copi Braille o'r canllaw neu gopi ohono ar dâp sain, yn rhad ac am ddim, trwy ffonio ein llinell archebu.

2 Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer 2008/2009?

Help ychwanegol sydd ar gael gan eich coleg

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am yr help ychwanegol y gallai colegau fod yn gallu ei gynnig. Gelwir yr help ychwanegol yn arian dewisol. Rhoddir esboniad am hyn isod, a dim ond colegau yng Nghymru sy'n cynnig yr help hwn. Fodd bynnag, efallai y bydd gan golegau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cynlluniau eu hunain er mwyn cynnig help ychwanegol.

Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

Mae cronfa ariannol wrth gefn ar gael trwy'ch coleg ac mae'n cynnig help os ydych ar incwm isel ac os bydd angen cymorth ariannol ychwanegol arnoch i ddechrau dilyn cwrs addysg uwch neu i barhau i ddilyn cwrs addysg uwch. Gall y gronfa:

- dalu costau penodol nad ydynt yn cael eu talu gan grantiau eraill yn barod;
- cynnig taliadau mewn argyfwng er mwyn talu costau annisgwyl; a
- helpu os ydych yn ystyried rhoi'r gorau i'ch cwrs oherwydd trafferthion ariannol

Pwy sy'n gymwys?	Myfyrwyr rhan-amser sy'n dilyn cwrs sy'n cyfateb ag o leiaf 50% o gwrs amser llawn cyfatebol (neu 25% o gwrs amser llawn cyfatebol os oes gennych anabledd sy'n eich atal rhag astudio ar gyfradd uwch). Bydd eich coleg yn rhoi cyngor i chi ynghylch a ydych yn gymwys.
Faint?	Bydd eich coleg yn penderfynu a fydd modd i chi gael yr help hwn ac os felly, faint y bydd modd i chi ei gael. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau chi.
Sut ddylwn i wneud cais?	Dylech gysylltu ag adran gwasanaethau myfyrwyr eich coleg. Bydd eich coleg yn dweud wrthych pa wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu a sut y bydd yn asesu'ch cais.
A fydd yn rhaid ei ad-dalu?	Fel arfer, rhoddir taliadau ar ffurf grantiau, na fydd angen eu had-dalu, er y gellir eu rhoi fel benthyciadau am y tymor byr weithiau. Yn ogystal, bydd eich coleg yn penderfynu a fydd yn talu cyfandaliad neu randaliadau i chi. Fel arfer, dylai myfyrwyr gael eu talu gan y sefydliad cyn pen 15 diwrnod o'u cais yn cael ei dderbyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r arian ar gyfer y Gronfa Ariannol wrth Gefn.

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Crynodeb

Bydd eich awdurdod lleol neu'r Brifysgol Agored yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i benderfynu a fyddwch yn gallu cael cymorth ariannol, ac os felly, faint y byddwch yn ei gael. Mae'r adran hon yn esbonio sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi er mwyn gwneud y penderfyniadau hyn, a sut y byddwch yn cael unrhyw daliadau. Mae'r siart llif isod yn rhoi crynodeb o'r broses hon.

A fyddaf yn gymwys i gael grant rhan-amser?



Am ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch â'ch prifysgol neu'ch ALl.

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Cymhwystra i gael cymorth ariannol

Bydd eich cymhwystra i gael cymorth ariannol yn dibynnu ar:

- lle'r ydych yn byw (y 'gofynion preswylio');
- math y cwrs yr ydych yn ei ddilyn ('gofynion y cwrs'); a'ch
- cymhwystra personol.

Gofynion preswylio sylfaenol

Fel arfer, bydd yn rhaid i chi fodloni tri gofyniad sy'n ymwneud â lle'r ydych yn byw a'ch statws mewnfudo ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs (gweler nodyn 2 isod). Ar y dyddiad hwnnw, rhaid eich bod:

- wedi bod yn 'preswylio fel arfer' (gweler nodyn 3 isod) yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am y tair blynedd yn union cyn y dyddiad hwn (heb fod hyn yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn);
- yn 'preswylio fel arfer' yng Nghymru; ac
- wedi sicrhau 'statws preswylydd sefydlog' – sy'n golygu bod yn rhaid eich bod wedi setlo yn y DU o fewn ystyr Deddf Mewnfudo 1971.

Nodyn 2

Bydd blynyddoedd academaidd yn cychwyn ar y dyddiadau canlynol

- 1 Medi ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor yr hydref
- 1 Ionawr ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor y gaeaf
- 1 Ebrill ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor y gwanwyn
- 1 Gorffennaf ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn ystod tymor yr haf

Nodyn 3

Mae "preswylio fel arfer" yn golygu lle'r ydych yn byw fel arfer, ac mae'n cael ei ddiffinio fel 'preswylio cyson ac arferol trwy ddewis ac am ddiben sefydlog ac eithrio absenoldebau dros dro neu achlysurol'. Mae hyn yn cyfeirio at y man lle'r ydych yn byw yn barhaol, trwy ddewis, ac eithrio cyfnodau y byddwch yn eu treulio rywle arall yn achlysurol, megis gwyliau.

Os ydych wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw yn ystod y tair blynedd ddiwethaf oherwydd eich bod chi neu'ch teulu wedi cael eich cyflogi mewn gwlad dramor dros dro, efallai y byddwch yn cael eich trin fel rhywun sydd wedi bod yn preswylio yma fel arfer. Gallwch weld rhagor o fanylion yn ein canllaw 'Cymorth i fyfyrwyr sy'n byw neu sy'n gweithio mewn gwlad dramor', sydd ar gael ar ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Os ydych yn byw yma yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn, a byddech wedi byw rywle arall fel arfer, ni fyddwch fel arfer yn cael eich trin fel rhywun sydd wedi bod yn preswylio yn y DU fel arfer. Am eithriadau i'r rheol hon, trowch at ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk. Os oeddech i ffwrdd o'r wlad hon yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, neu rywfaint o'r amser yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, oherwydd eich bod chi neu'ch gwraig, eich gŵr, eich partner sifil, neu un o'ch rhieni yn gwasanaethu mewn gwlad dramor fel aelod o'r lluoedd arfog parhaol (y fyddin, y llynges neu'r llu awyr), byddwch chi neu'ch gwraig, eich gŵr, eich partner sifil (gweler nodyn 4 isod) neu'ch rhiant yn cael eich trin fel rhywun a gyflogwyd mewn gwlad dramor dros dro yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni fydd hyn yn eich atal rhag bod yn gymwys i gael cymorth i dalu eich ffioedd neu'ch costau byw.

Nodyn 4

Mae partner sifil yn rhywun yr ydych wedi ymrwymo i drefniant ffurfiol gyda nhw (a elwir yn "bartneriaeth sifil"), felly byddwch yn meddu ar yr un statws â phâr priod yn ôl y gyfraith.

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion preswylio sylfaenol ac os yw'ch cwrs yn gwrs cymwys, efallai y bydd modd i chi wneud cais am grant ffioedd rhan-amser o hyd. Gallai hyn fod yn berthnasol dan yr amgylchiadau canlynol.

- Os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu un o'ch rhieni yn cael eu cydnabod fel ffoadur gan Lywodraeth Prydain.
- Os yw'r Swyddfa Gartref wedi dyfarnu 'amddiffyniad dyngarol', 'caniatâd dewisol' neu 'ganiatâd eithriadol' i chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu un o'ch rhieni i gael mynediad i'r DU neu i aros yn y DU o ganlyniad i'r ffaith y bu cais am loches yn aflwyddiannus, rhaid i chi fodloni'r gofyniad preswylio o fod yn preswylio fel arfer yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am y tair blynedd cyn i'ch cwrs gychwyn. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i chi fod yn meddu ar statws preswylydd sefydlog.
- Os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu un o'ch rhieni yn ddinesydd y DU ac os nad ydych yn bodloni'r gofynion preswylio sylfaenol ond rydych wedi bod yn byw yn yr AEE neu'r Swistir, trowch at y wefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk i weld a allech fod yn gymwys i gael cymorth.
- Os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu un o'ch rhieni yn ddinesydd yr AEE neu'n ddinesydd y Swistir ac os nad ydych yn bodloni'r gofynion preswylio, a fyddech gystal â throi at y wefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk i weld a oes modd i chi gael cymorth.

Mae'r gofynion preswylio yn gymhleth. Hyd yn oed os nad ydych yn bodloni'r gofynion a esbonnir uchod, efallai y bydd modd i chi gael cymorth o hyd. Am fanylion llawn am y gofynion cymhwystra, trowch at ein gwefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Os ydych yn geisiwr lloches yn y DU, ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth fel arfer, oni bai bod y Swyddfa Gartref wedi dyfarnu 'statws preswylydd sefydlog' i chi ac os ydych wedi bod yn byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw fel arfer am y tair blynedd cyn i'ch cwrs gychwyn.

Bydd eich awdurdod lleol yn penderfynu a ydych yn bodloni'r gofyniad preswylio er mwyn bod yn gymwys am grant ffioedd a grant cwrs rhan-amser.

Os ydych yn ddinesydd o'r Undeb Ewropeaidd neu'n ŵr, yn wraig, yn bartner sifil neu'n blentyn dinesydd yr UE, efallai y bydd modd i chi gael help i dalu eich ffioedd dysgu dan drefniant tebyg i'r hyn a gynigir i fyfyrwyr o'r DU. Bydd modd i chi gael ffurflen gais gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE yn:

EU Customer Services Team
PO Box 89
Darlington
Co Durham
DL1 9AZ.

Ffôn: 0141 243 3570
(10yb tan 4yh, dydd Llun i ddydd Gwener)

Gwefan: www.direct.gov.uk
E-bost: EU_Team@slc.co.uk

Ar ôl ei llenwi, dylech anfon y ffurflen i'r cyfeiriad uchod.

Fel myfyriwr yr UE, ni fydd modd i chi gael grant cwrs.

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Gofynion ar gyfer y cwrs

Rhaid i'ch cwrs fod yn gwrs addysg uwch mewn coleg a ariennir gan arian cyhoeddus, neu'n gwrs dynodedig penodol mewn coleg a ariennir gan arian preifat. Rhaid i'r cwrs arwain at Dystysgrif neu Ddiploma Addysg Uwch, TGU, DCU neu radd (er enghraifft, BSc neu BA). Ni fydd cyrsiau a gynlluniwyd er mwyn paratoi myfyrwyr am gwrs addysg uwch, a elwir yn 'gyrsiau mynediad', yn gyrsiau cymwys at ddibenion sicrhau cymorth.

Rhaid i chi fod yn fyfyriwr rhan-amser sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% neu fwy o gwrs amser llawn. (Felly, ni ddylai gymryd mwy na dwywaith yr amser i chi gwblhau'r cwrs ag y byddai'n ei gymryd i chi gwblhau'r cwrs amser llawn cyfatebol). Mae gan rai colegau system bwyntiau neu gredydau ar gyfer eu cyrsiau. Fel arfer, bydd cwrs sy'n werth 60 pwynt neu gredyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd, yn cyfateb â 50% o gwrs amser llawn.

Rhaid i'ch cwrs bara blwyddyn o leiaf.

Gallwch wneud cais am gymorth am hyd at wyth mlynedd. Mae hyn oherwydd ei bod yn gallu cymryd pedair blynedd i gwblhau rhai cyrsiau gradd amser llawn, felly fe allai gymryd wyth mlynedd i gwblhau'r cwrs rhan-amser cyfatebol.

Rheolau personol

- Gallwch fod yn fyfyriwr newydd neu'n fyfyriwr sy'n parhau i ddilyn cwrs.
- Gallwch fod yn fyfyriwr o unrhyw oedran.

Rheolau ariannol

- Os ydych yn derbyn mathau penodol o fudd-daliadau, gallwch fod yn gymwys i gael grant cwrs a grant ffioedd llawn. (Gweler tudalen 22 am restr o'r budd-daliadau hyn). Fel arall, bydd y swm y byddwch yn gallu ei gael yn dibynnu ar eich incwm.
- Ni fydd DSAs yn dibynnu ar eich incwm.

Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant ffioedd neu'r grant cwrs

- os ydych yn meddu ar radd eisoes
- os ydych yn dilyn cwrs hyfforddiant athrawon cychwynnol (HCA) rhan-amser (gweler tudalen 27); neu
- ar gyfer mwy nag un cwrs rhan-amser ar yr un pryd.

Asesu faint o help y byddwch yn gallu ei gael

Bydd swm yr help y byddwch yn ei gael i dalu costau ffioedd yn cael ei seilio ar eich incwm gros chi (incwm cyn didyniadau), ond yn ogystal, gellir ystyried incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil, ac mewn rhai achosion, partner o'r un rhyw â chi neu bartner o'r rhyw arall (y cyfeirir atynt fel 'eich partner' yn yr adran hon) pan fo hynny'n briodol.

Byddwch yn gallu cael y grant cwrs a'r grant ffioedd llawn os ydych yn cael un neu fwy o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Gyngor
- Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i Seilio ar Incwm
- Lwfans Cymhorthdal Cyflogaeth wedi'i Seilio ar Incwm
- Lwfans y Fargen Newydd

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd eich awdurdod lleol yn dweud wrthych pa dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu i gefnogi'ch cais.

Ar gyfer 2008/2009, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu mai £16,109 fydd lefel yr incwm er mwyn sicrhau'r cyfanswm uchaf o ran cymorth. Er enghraifft, os ydych yn fyfyriwr sengl (myfyriwr heb bartner neu ddibynyddion) ac os yw'ch incwm yn is na £16,110, byddwch yn gymwys i gael y grantiau llawn.

Bydd eich awdurdod lleol yn asesu'ch incwm ac incwm eich partner pan fo hynny'n briodol. Mae'r tabl ar dudalen 15 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd eich awdurdod lleol yn ystyried incwm eich partner. Pa fo hynny'n briodol, bydd lefel yr incwm er mwyn sicrhau'r uchafswm o ran grantiau, yn codi fel a ganlyn.

- Gymaint â £2,000 os ydych yn byw gyda phartner (gweler y tabl ar dudalen 15).
- Gymaint â £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol hynaf.
- Gymaint â £1,000 ar gyfer pob un o'ch plant dibynnol eraill.

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs, bydd angen i chi holi'ch awdurdod lleol am ffurflen gais ar wahân. Nid yw DSAs yn dibynnu ar eich incwm.

Bydd y penderfyniad i ystyried incwm eich partner yn dibynnu ar:

- eich oedran; ac
- a wnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs cyn neu ar ôl 1 Medi 2005

Os gwnaethoch gychwyn yn y system addysg uwch ar neu ar ôl 1 Medi 2005, bydd eich awdurdod lleol yn ystyried eich incwm chi ac incwm eich partner. Wrth gwrs, bydd hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n cychwyn ar eu cwrs yn 2008/2009.

Os gwnaethoch gychwyn ar eich cwrs cyn Medi 2005, bydd eich awdurdod lleol yn ystyried eich incwm chi ac incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil. Os ydych yn 25 oed neu'n hŷn, bydd incwm unrhyw un o'r rhyw arall yr ydych yn byw gyda nhw fel pe baech yn bâr priod, yn cael ei ystyried.

Mae'r tabl isod yn nodi'r adegau pan ystyrir incwm partner yn ystod 2008/2009 (hynny yw, pan fyddwch yn cael eich trin fel pâr).

Mae lefel yr incwm yn uwch ar gyfer teuluoedd mwy.

	Ystyrir incwm			
	Partner priod	Partner sifil	Partner di-briod o'r rhyw arall	Partner (ac eithrio partner sifil) o'r un rhyw
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005 Myfyriwr newydd dan 25 oed Myfyriwr newydd sy'n 25 oed neu'n hŷn	 Ie Ie	 Ie Ie	 Ie Ie	 Ie Ie
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005 Myfyriwr dan 25 oed Myfyriwr sy'n 25 oed neu'n hŷn	 Ie Ie	 Ie Ie	 Na Ie	 Na Na

Felly, nodir y cyfyngiad incwm ar gyfer y grantiau ffioedd llawn, isod.

Statws	**Dim plant**	**Un plentyn**	**Dau blentyn**	**Tri phlentyn**
Sengl	£16,109	£18,109	£19,109	£20,109
Pâr	£18,109	£20,109	£21,109	£22,109

3 Sut y byddwch yn cael eich asesu a'ch talu

Mae lefel yr incwm yn uwch i deuluoedd mawr.

Os ydych yn fyfyriwr sengl sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% i 59% o gwrs amser llawn cyfatebol, ac os yw'ch incwm yn £16,110 yn union, bydd eich cymorth yn gostwng gymaint â £50, felly'r swm uchaf y bydd modd i chi ei gael fydd £1,620 (grant ffioedd o £570, a grant cwrs o £1,050).

Os yw'ch incwm yn uwch na £16,110, bydd swm eich grant yn gostwng gan ddibynnu ar ddwyster y cwrs.

h.y. 50 i 59% - £1 ar gyfer pob £15.74 cyflawn
60 i 74% - £1 ar gyfer pob £12.69 cyflawn
75% neu fwy - £1 ar gyfer pob £9.86 cyflawn

Os byddwch yn gymwys i gael cymorth, yr isafswm y bydd modd i chi ei gael (neu y gellir ei dalu i goleg am eich ffioedd) fydd £50.

Ceir cyfyngiadau o ran uchafswm yr incwm, ac os bydd eich incwm yn uwch na'r rhain, ni fydd modd i chi gael unrhyw gymorth ariannol. Y cyfyngiadau hyn o ran uchafswm yr incwm yw £26,915 a £2,000 ar gyfer unrhyw bartner y mae eu hincwm yn cael ei ystyried pan fo hynny'n berthnasol, £2,000 ar gyfer eich plentyn dibynnol cyntaf chi neu blentyn dibynnol cyntaf eich partner, a £1,000 ar gyfer unrhyw blant dibynnol pellach.

	Cyfyngiad o ran uchafswm yr incwm (cyn treth)
Pob myfyriwr sengl	Dim plant - £26,915 Un plentyn - £28,915 Dau blentyn - £29,915
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ac y maent yn briod, y mae ganddynt bartner sifil neu y maent yn byw gyda phartner (o'r naill ryw neu'r llall) (Yn yr achos hwn, ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant - £28,915 (incwm ar y cyd) Un plentyn - £30,915 (incwm ar y cyd) Dau blentyn - £31,915 (incwm ar y cyd)
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005 ac y maent yn: • briod neu y mae ganddynt bartner sifil; neu'n • 25 oed neu'n hŷn ac yn byw gyda phartner o'r rhyw arall. (Yn yr achosion hyn, ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant - £28,915 (incwm ar y cyd) Un plentyn - £30,915 (incwm ar y cyd) Dau blentyn - £31,915 (incwm ar y cyd)
Myfyrwyr a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 1 Medi 2005 ac y maent: • yn byw gyda phartner o'r un rhyw; neu • dan 25 oed ac yn byw gyda phartner o'r rhyw arall. (Yn yr achosion hyn, ni ystyrir incwm eich partner.)	Dim plant - £26,915 Un plentyn - £28,915 Dau blentyn - £29,915

Gweler atodiad 1 am enghreifftiau o'r cymorth ariannol y byddai gan fyfyrwyr mewn gwahanol amgylchiadau personol yr hawl i'w gael, ac atodiad 2 am enghreifftiau o'r ffordd y caiff cymhwystra ei gyfrifo.

4 Pryd a sut i wneud cais

Mae'r adran hon yn esbonio pryd a sut y bydd modd i chi gael ffurflen gais, a'r hyn y bydd angen i chi ei wneud er mwyn cadarnhau eich bod yn dilyn eich cwrs, ac i ble y dylech anfon eich ffurflen ar ôl i chi ei llenwi.

Cam 1 – cael ffurflen gais a'i llenwi

Gallwch wneud cais am y grant cwrs a'r grant ffioedd trwy lenwi ffurflen PTG1.

Gallwch gael copi o ffurflen PTG1 trwy ffonio ein llinell gymorth cyllid myfyrwyr ar 0800 731 9133. Bydd copïau o ffurflen PTG1 ar gael o fis Mehefin 2008.

Os hoffech wneud cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs), bydd angen i chi lenwi ffurflen gais Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA1) yn ogystal â ffurflen gais PTG1. Gofynnwch i'ch awdurdod lleol i anfon ffurflen gais DSA atoch ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser. Neu, gallwch gael copi ar ein gwefan (www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk), neu drwy ffonio Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845. Maent ar agor rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn.

Os ydych yn fyfyriwr yr UE, bydd angen i chi lenwi ffurflen EUPTG1. Gallwch gael copi o'r ffurflen hon trwy ffonio'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE ar 0141 243 3570 neu drwy droi at ei wefan (www.direct.gov.uk). Bydd copïau o ffurflen EUPTG1 ar gael o fis Awst 2008.

Os ydych yn weithiwr mudol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, dylech lenwi ffurflen PTG1 a'i dychwelyd i'ch awdurdod lleol.

Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser a fydd yn astudio yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, byddwch yn cael y grant cwrs a chymorth i dalu eich ffioedd. Bydd y grant ffioedd yn debyg i'r cymorth a roddir gan y gweinyddiaethau hynny i fyfyrwyr sy'n byw ac sy'n astudio yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Gall eich awdurdod lleol roi rhagor o fanylion i chi ynghylch lefel y cymorth sydd ar gael yn y sefyllfa hon. Dylech lenwi ffurflen PTG1 er mwyn gwneud cais am gymorth.

Os ydych yn fyfyriwr dysgu o bell rhan-amser, byddwch yn cael eich ariannu yn unol â'r man lle y byddwch yn dilyn eich cwrs. Mae hyn yn golygu, os ydych yn byw yng Nghymru ac yn dilyn cwrs dysgu o bell a ddarperir gan goleg yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, y byddwch yn gymwys i wneud cais am becyn cymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru. Dylech lenwi ffurflen PTG1 er mwyn gwneud cais am gymorth.

Ar ôl i chi gael ffurflen, dylech lenwi'r holl rannau sy'n berthnasol i chi, gan symud ymlaen i gam 2 isod.

Cam 2 – cadarnhad gan eich coleg

Ar ôl i chi lenwi eich ffurflen gais, dylech ei rhoi i'ch coleg er mwyn iddo allu cadarnhau:

- eich bod yn fyfyriwr yn y coleg hwnnw;
- dwyster eich cwrs; a'r
- ffioedd y bydd yn ei godi ar gyfer eich cwrs.

Os ydych yn fyfyriwr newydd, bydd eich coleg yn llenwi ei ran ef o'r ffurflen ar ôl i chi gwblhau pythefnos gyntaf y cwrs.

Os ydych yn fyfyriwr sy'n parhau i ddilyn cwrs, bydd eich coleg yn llenwi ei ran ef ar ôl i chi gofrestru i astudio ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/2009.

Ar ôl i'ch coleg lenwi ei ran ef, bydd yn dychwelyd y ffurflen atoch.

4 Pryd a sut i wneud cais

Cam 3 – anfon y ffurflen

Ar ôl i chi gael y ffurflen yn ôl gan eich coleg, dylech ei hanfon i'ch awdurdod lleol.

Dylech sicrhau bod eich awdurdod lleol yn cael eich cais cyn pen chwe mis o ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd eich cwrs (i nifer o fyfyrwyr, 1 Mawrth 2009 fydd y dyddiad hwn).

Cam 4 – bydd eich awdurdod lleol yn eich hysbysu a ydych yn gymwys i gael help ariannol

Bydd eich awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch gan eich hysbysu a ydych yn gymwys i gael help ariannol i dalu eich ffioedd dysgu neu gostau'ch cwrs. Os byddwch yn gymwys i gael help ariannol, bydd eich awdurdod lleol yn dweud wrth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i dalu hwn. Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn talu unrhyw grant ffioedd yn uniongyrchol i'ch coleg, a bydd yn talu unrhyw grant cwrs i mewn i'ch cyfrif banc.

Myfyrwyr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored

Mae'r Brifysgol Agored yn delio â cheisiadau ei myfyrwyr am y grant ffioedd, y grant cwrs a DSAs.

Mae gan y Brifysgol Agored ei ffurflen gais ei hun, a dylech lenwi hon yn hytrach na ffurflen PTG1. Os ydych yn dymuno astudio gyda'r Brifysgol Agored ac os bydd angen i chi gael unrhyw wybodaeth am gymorth ariannol, dylech gysylltu â'i thîm Cymorth Ariannol trwy anfon e-bost at general-enquiries@open.ac.uk neu drwy ffonio 01908 653411.

Rhaid i chi hysbysu eich awdurdod lleol, neu'r Brifysgol Agored, am unrhyw newid o ran eich amgylchiadau bob amser (er enghraifft, os byddwch yn penderfynu newid eich cwrs, neu os byddwch yn penderfynu peidio gorffen eich cwrs).

5 Pa gymorth arall sydd ar gael?

Help i fyfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau rhan-amser yn 2008/2009.

Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (AU) ar gael o hyd i fyfyrwyr rhan-amser y maent eisoes yn cael y grant hwn ac y byddant yn parhau i fod yn gymwys i'w gael nes iddynt gwblhau eu rhaglen astudio. Er mwyn parhau i fod yn gymwys i gael GDC (AU) eleni, rhaid i'ch incwm chi neu incwm eich cartref fod yn £17,250 neu lai y flwyddyn. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fanylion.

Help i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser sy'n werth 30-59 credyd.

Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (AU) ar gael hefyd i fyfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau rhan-amser sy'n werth 30-59 credyd yn ystod blwyddyn academaidd 2008/09

Sylwer: nid yw'r cymorth hwn ar gael i fyfyrwyr newydd sy'n cychwyn ar eu cwrs ym mlwyddyn academaidd 2008/09.
Mae'r grant hwn yn darparu arian ychwanegol i fyfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cwrs ac sy'n dod o deuluoedd ar incwm isel pan fyddant yn dilyn cwrs addysg uwch rhan-amser. Gallwch gael y GDC (AU) hwn yn ogystal â mathau eraill o gymorth.

I fod yn gymwys i gael y math hwn o gymorth, rhaid eich bod yn parhau i ddilyn cwrs gradd israddedig sy'n cyfateb â 30-59 credyd, rhaid eich bod yn byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio mewn sefydliad AU a ariennir gan arian cyhoeddus neu mewn sefydliad a noddir neu gyda darparwr trydydd parti.

Asesir yr incwm ar gyfer pob cais. I fod yn gymwys, rhaid i'ch incwm chi neu incwm eich cartref fod yn £17,250 neu lai y flwyddyn. Caiff incwm y cartref ar gyfer unigolyn ei gyfrifo trwy ystyried incwm gros (cyn treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) ac ar ôl didynnu lwfansau penodol.

Telir y GDC yn uniongyrchol gan eich ALI i chi ar ffurf tri rhandaliad yn ystod blwyddyn academaidd. Mae'r tabl isod yn dangos faint o arian y gallwch ei gael gan GDC rhan-amser (AU) ar gyfer myfyrwyr newydd, gan ddibynnu ar lefel incwm y cartref sy'n berthnasol i chi. Ni fydd y dyfarniad yn effeithio ar eich hawl i gael budd-daliadau neu'r ffordd y bydd Cyllid a Thollau EM yn eich asesu at ddibenion treth.

Incwm y Cartref		
0 - £5,745	**£5,746 - £11,490**	**£11,491 - £17,250**
£750	£450	£300

Help i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig.

Nid yw'r system cymorth i fyfyrwyr yn darparu'r un cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig ag y mae'n ei ddarparu i'r rhai ar gyrsiau israddedig, ac eithrio hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae'r cynghorau ymchwil a rhai elusennau eraill yn cynnig ysgoloriaethau ymchwil a grantiau ymchwil, ond ni cheir benthyciadau a gymorthdelir ar gyfer ôl-raddedigion.

Mae Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser sy'n dilyn cwrs ôl-raddedig cydnabyddedig. Fodd bynnag, os ydych yn cael bwrsariaeth neu ddyfarniad gan gyngor ymchwil, GIG neu Gyngor Gofal Cymru, neu os yw'ch coleg yn darparu cymorth sy'n cyfateb â DSAs, ni fydd modd i chi gael DSA ôl-raddedig gan eich awdurdod lleol. Dylech gysylltu â darparwr y fwrsariaeth neu'r dyfarniad gan ofyn am gyngor ynghylch unrhyw gymorth ychwanegol y byddwch yn gymwys i'w gael oherwydd eich anabledd.

Bydd myfyrwyr ar gyrsiau TAR yn parhau i fod yn gymwys i gael y DSAs fel y'u dyfernir i fyfyrwyr israddedig ac o ganlyniad, ni fyddant yn gymwys i gael DSA ôl-raddedig.

Yn ogystal, gall myfyrwyr ôl-raddedig wneud cais am help gan y Cronfeydd Ariannol wrth Gefn. Dylech wneud cais i adran gwasanaethau myfyrwyr eich coleg. Bydd eich coleg yn dweud wrthych pa wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu a sut y bydd yn asesu eich cais.

5 Pa gymorth arall sydd ar gael?

Mae'r holl gynghorau ymchwil yn ystyried ariannu ôl-raddedigion unigol. Bydd angen i chi gysylltu â'r cyngor ymchwil perthnasol i ddarganfod mwy. Bydd yn rhaid i chi gystadlu am arian gan gynghorau ymchwil, ac ni fydd sicrhau lle ar raglen ôl-raddedig yn golygu eich bod yn gymwys i gael dyfarniad yn awtomatig.

Ceir wyth cyngor ymchwil, ac fe'u rhestrir isod:

- Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) – www.ahrc.ac.uk
- Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) – www.bbsrc.ac.uk
- Cyngor Labordy Canolog y Cynghorau Ymchwil (CCLRC) – www.cclrc.ac.uk
- Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) – www.epsrc.ac.uk
- Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) – www.esrc.ac.uk
- Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC) – www.mrc.ac.uk
- Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) – www.nerc.ac.uk
- Y Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth (PPARC) – www.pparc.ac.uk

Elusennau ac ymddiriedolaethau addysgol

Mae elusennau ac ymddiriedolaethau addysgol yn rhoi dyfarniadau unigol i fyfyrwyr hefyd. Gallwch weld rhestrau safonol o'r rhain yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd cyhoeddus.

6 Beth fydd yn digwydd os byddaf wedi cael benthyciad myfyrwyr yn y gorffennol?

Nid oes modd cael benthyciadau ar gyfer cyrsiau rhan-amser mwyach. Fe'u disodlwyd gan y grant ffioedd a'r grant cwrs yn ystod blwyddyn academaidd 2004/2005.

Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser ac os cawsoch fenthyciad yn gynharach yn ystod eich cwrs, ni fydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad tan fis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs. Bydd y swm y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu yn cael ei gysylltu â'ch incwm. Disgwylir i chi dalu 9% o unrhyw incwm dros £15,000 bob blwyddyn, neu'r swm misol (£1,250) neu wythnosol (£288) cyfatebol.

Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gweithio gyda Chyllid a Thollau EM (Cyllid y Wlad yn flaenorol) i gasglu'ch ad-daliadau. Bydd eich cyflogwr yn cymryd yr ad-daliadau, a ddangosir ar eich slip cyflog. Os ydych yn hunangyflogedig, cesglir yr ad-daliadau trwy gyfrwng y broses hunanasesu treth.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ad-daliadau misol y byddai angen i chi eu talu os byddech yn ennill gwahanol symiau, a chanran cyfanswm eich incwm y byddai'r ad-daliadau hyn yn cyfateb ag ef.

Incwm bob blwyddyn	**Ad-daliadau**	
	Ad-daliad misol	**Ad-daliad fel canran o'ch incwm**
£14,000	0	0%
£16,000	£7	0.6%
£18,000	£22	1.5%
£20,000	£37	2.3%

Faint fydd yn rhaid i mi ei ad-dalu?

Bydd y Llywodraeth yn talu rhan o'r llog ar y swm sy'n ddyledus, felly dim ond llog ar gyfradd sy'n gysylltiedig â chwyddiant y byddwch chi yn ei dalu. Mae hyn yn golygu y bydd gwerth y swm y byddwch yn ei ad-dalu, yn weddol debyg, mewn termau real, i werth y swm a fenthycwyd i chi. Bydd hyn yn berthnasol nes bydd y benthyciad yn cael ei ad-dalu, ac fe fydd yn cynnwys unrhyw gyfnod pan fyddwch yn astudio neu pan na fyddwch yn ad-dalu'r benthyciad, yn ogystal â'r cyfnod pan fyddwch yn ad-dalu'r benthyciad. Nodir manylion unrhyw newidiadau a wneir i'r llog a godir ar wefan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i chi ad-dalu'ch benthyciad yn dibynnu ar eich incwm ar ôl i chi adael y coleg a'r swm yr ydych wedi'i fenthyg.

Fel arfer, byddwch yn parhau i ad-dalu'r benthyciad nes i chi ad-dalu'r swm llawn. Fodd bynnag, os ydych wedi parhau i dalu eich ad-daliadau, bydd unrhyw swm sy'n ddyledus o hyd yn cael ei ganslo:

- pan fyddwch yn cyrraedd 65 oed;
- os cewch eich anablu yn barhaol, ac ni fydd modd i chi weithio o ganlyniad i hyn; neu
- os byddwch yn marw.

Gallwch weld rhagor o fanylion ynghylch ad-dalu'ch benthyciad yn y canllaw 'Benthyciadau i fyfyrwyr: canllaw i'r amodau a'r telerau' sydd ar gael gan eich awdurdod lleol. Mae'r canllaw hwn ar gael ar ein gwefan hefyd (www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk).

7 A fydd modd i mi hawlio budd-daliadau o hyd?

Cofiwch mai gwybodaeth gyffredinol a nodir yma. Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol, dylech gysylltu â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, eich adran Budd-dal Tai lleol neu'ch gwasanaeth cynghori myfyrwyr lleol.

Fel myfyriwr rhan-amser, bydd modd i chi hawlio budd-daliadau prawf modd o hyd os ydych yn ddi-waith. Budd-daliadau prawf modd (megis y Lwfans Ceisio Gwaith, y Budd-dal Tai a'r Budd-dal Treth Gyngor) yw'r rhai a asesir yn ôl eich incwm, eich cynilion a'ch buddsoddiadau. Fodd bynnag, er mwyn gallu hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid eich bod ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith.

Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid eich bod yn fodlon mynychu cyfweliad, hyd yn oed os bydd hyn yn golygu cymryd amser i ffwrdd o'ch cwrs. Yn ogystal, dylech fod yn gallu ad-drefnu'ch oriau astudio er mwyn gallu cyflawni swydd, neu fod yn barod i roi'r gorau i'ch cwrs os na fydd modd i chi wneud hyn.

Os ydych yn rhiant sengl neu os oes gennych anabledd neu salwch sy'n golygu na fu modd i chi weithio am 28 wythnos o leiaf, ac os ydych ar incwm isel, efallai y bydd modd i chi hawlio Cymhorthdal Incwm yn hytrach na'r Lwfans Ceisio Gwaith am nad oes yn rhaid i chi fod ar gael i weithio er mwyn hawlio'r Cymhorthdal Incwm.

Dim ond pobl dros 18 oed sy'n gallu hawlio Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm. Dylai fod modd i chi gael rhagor o wybodaeth am y budd-daliadau hyn gan eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

Nid oes yn rhaid i chi fod wrthi'n chwilio am waith er mwyn hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Gyngor.

Sut mae'r adran Budd-dal Tai lleol neu'r Ganolfan Byd Gwaith yn cyfrifo'r hyn y mae gennyf yr hawl i'w gael?

Pan fydd yn cyfrifo'ch budd-daliadau, bydd y Ganolfan Byd Gwaith neu'r adran Budd-dal Tai yn anwybyddu unrhyw grant ffioedd yr ydych yn ei dderbyn ac ni fydd yn trin y grant ffioedd fel incwm wrth asesu unrhyw fudd-dal prawf modd. Ni fydd yn ystyried y grant cwrs fel incwm. Yn ogystal, ni fydd unrhyw daliadau yr ydych yn eu cael gan y Cronfeydd Ariannol wrth Gefn yn cael ei gyfrif fel incwm, ar yr amod nad eu diben yw'ch helpu i dalu costau byw o ddydd i ddydd.

O fis Awst 2008, byddwch yn gallu cael cyngor ynghylch swm y budd-daliadau y byddwch yn ei gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/2009. Gallwch gael y cyngor hwn gan wasanaeth cynghori eich coleg, eich swyddfa Adran Gwaith a Phensiynau leol neu'ch canolfan gynghori leol.

Bydd eich adran Budd-dal Tai neu'ch Canolfan Byd Gwaith leol yn gallu rhoi rhagor o gyngor i chi o fis Gorffennaf 2008 ymlaen.

8 Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n fyfyriwr o'r UE?

Os ydych yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), neu'n ŵr, yn wraig, yn bartner sifil neu'n blentyn dinesydd yr UE, efallai y bydd modd i chi gael cymorth tebyg i dalu'ch ffioedd dysgu ag y gall myfyriwr o'r DU ei gael. Dylech gysylltu â:

The EU Customer Services Team
PO Box 89
Darlington
County Durham
DL1 9AZ.

Ffôn: 0141 243 3570 (10yb tan 4yh)
Gwefan: www.direct.gov.uk
E-bost: EU_Team@slc.co.uk

Bydd angen i chi wneud cais trwy lenwi ffurflen EUPTG1. Gallwch gael copi o'r ffurflen hon trwy gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE yn uniongyrchol neu lawrlwytho copi o'r ffurflen o wefan Tîm yr UE. Bydd copïau o ffurflen EUPTG1 ar gael o fis Awst 2008.

9 Yr hyn i'w wneud os nad ydych yn fodlon

Crynodeb

O ddarllen y canllaw hwn, byddwch yn gweld y byddwch yn delio â nifer o wahanol sefydliadau efallai sy'n ymwneud â chynnig cymorth i fyfyrwyr – eich awdurdod lleol, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, eich coleg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyllid a Thollau EM, ac ati. Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o gyngor i chi ynghylch yr hyn i'w wneud os na fyddwch yn fodlon ac os byddwch yn teimlo eich bod yn dymuno cwyno neu apelio.

Mae pob sefydliad yn dymuno darparu gwasanaethau da. Ond weithiau, bydd pethau yn mynd o chwith neu bydd camgymeriadau yn cael eu gwneud. Er enghraifft, efallai y bydd oedi annerbyniol yn codi neu efallai na fydd rhywun yn delio â chi mewn ffordd gwrtais neu efallai bod penderfyniad a wnaethpwyd ynghylch eich achos yn ymddangos yn benderfyniad anghywir.

Cyn ystyried yr hyn i'w wneud, dylech sicrhau eich bod wedi gwneud yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud. Er enghraifft, a ydych wedi darparu'r holl wybodaeth neu'r holl ddogfennau y gofynnwyd i chi eu darparu, neu wneud pethau mewn pryd?

Yr hyn y dylech ei wneud os ydych yn dymuno cwyno

Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus gyhoeddi ei drefniadau ynghylch delio â chwynion. Yn aml, byddant yn gwneud hyn ar ffurf taflen neu fel rhan o ddeunydd cyhoeddusrwydd arall. Bydd dilyn ei system yn eich helpu chi ac yn helpu'r sefydliad yr ydych yn delio ag ef.

Felly, y peth cyntaf i'w wneud yw darganfod pwy y dylech gyfleu eich cwyn iddynt. Gallai hyn fod yr unigolyn yr ydych wedi bod yn delio â nhw neu un o'r rheolwyr yn y sefydliad.

Yn ogystal, dylech ddarganfod **sut** i wneud eich cwyn. Yn gyntaf, efallai y bydd yn iawn gwneud hyn dros y ffôn, pan fydd modd datrys y mater yn gyflym ac yn hawdd efallai. Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ydych yn cael eich trin o hyd, neu os yw'r broblem yn fwy cymhleth, efallai y bydd yn briodol nodi'r mater yn ysgrifenedig.

Yn ogystal, dylai system y sefydliad er mwyn delio â chwynion nodi'n eglur yr hyn fydd yn digwydd os byddwch yn anfodlon â'r ffordd y mae'ch achos neu'ch cwyn yn cael ei drin o hyd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu y bydd modd i chi gyfleu cwyn i swyddogion uwch yn y sefydliad, y prif weithredwr, y prif swyddog neu gyfarwyddwr efallai.

Os ydych wedi bod trwy system gwyno y sefydliad dan sylw ac os ydych yn anfodlon o hyd, efallai y bydd modd i chi droi at adolygiad cwynion annibynnol. Dylai deunydd cyhoeddusrwydd y sefydliad ynghylch ei systemau cwyno ddisgrifio hyn, gan esbonio sut i gysylltu â'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw. Os nad yw'n nodi hyn, dylech ofyn i'r sefydliad yr hyn y dylech ei wneud.

Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol wedi gwneud eu trefniadau eu hunain er mwyn darparu adolygiad annibynnol o gwynion. Os felly, dylent gynnwys y manylion yn eu deunydd cyhoeddusrwydd.

Ond yn gyffredinol, mae'r prif rai sy'n ymwneud ag agweddau ar gymorth i fyfyrwyr fel a ganlyn:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft, awdurdodau lleol);
- Yr Ombwdsmon Seneddol (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth ganolog, er enghraifft, DfES);
- Aseswr y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr;
- Y Dyfarnwr (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Gyllid a Thollau EM, a fydd yn ymwneud â chasglu ad-daliadau'ch benthyciad ar ôl i chi orffen astudio – bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser a gychwynnodd ar eu cwrs cyn 2004/2005 yn unig).

9 Yr hyn i'w wneud os nad ydych yn fodlon

Yr hyn y dylech ei wneud os ydych yn dymuno apelio

Mae gwneud apêl yn wahanol i wneud cwyn.

Efallai eich bod yn fodlon â'r ffordd y mae'r sefydliad wedi delio â chi (efallai ei fod wedi bod yn effeithlon ac yn gwrtais ac ati), ond efallai eich bod yn teimlo nad yw'r sefydliad wedi gwneud y penderfyniad cywir yn eich achos chi, er enghraifft, ynghylch a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol, neu faint o gymorth y mae gennych yr hawl i'w gael.

Mae hyn yn golygu y dylai apeliadau ymwneud â:

- materion sy'n ymwneud â'r gyfraith;
- penderfyniadau neu gamau gweithredu a seiliwyd ar y dehongliad o'r gyfraith neu'r rheoliadau; neu
- sefydliad yn torri ei ymrwymiadau, yn hytrach na methiannau wrth weinyddu.

Yn yr un modd â phan fyddwch yn ystyried gwneud cwyn, dylai'r sefydliad yr ydych yn delio ag ef fod yn gallu rhoi gwybodaeth i chi ynghylch sut i apelio. Felly, y cam cyntaf y dylech ei gymryd yw sicrhau bod gennych y wybodaeth hon. Cyn mynd ymhellach, dylech sicrhau hefyd eich bod wedi hysbysu'r sefydliad dan sylw nad ydych yn fodlon â'i benderfyniad. Yn ogystal, dylech ofyn iddo esbonio sut y gwnaeth ei benderfyniad. Efallai y bydd hyn yn helpu i ddatrys y broblem heb i chi orfod cymryd unrhyw gamau pellach.

Os ydych yn anfodlon o hyd, dylech sicrhau eich bod yn gwybod sut i apelio ac i bwy y dylech apelio iddynt. Bydd gan rai o'r sefydliadau y byddwch yn delio â nhw, eu trefniadau apelio eu hunain, y dylech eu defnyddio yn gyntaf. Bydd y rhain yn amrywio o apeliadau i brif swyddogion dyfarnu mewn awdurdodau addysg lleol, i apeliadau i'r comisiynwyr treth ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd gan Gyllid a Thollau EM.

Ond, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn rhaid i chi ystyried defnyddio'r system gyfreithiol (mynd gerbron llys sirol neu wneud cais am adolygiad barnwrol yn yr uchel lys) os, er enghraifft, bydd angen i chi symud yr apêl ymlaen eto. Gall hyn fod yn berthnasol hefyd os mai dyma'r unig lwybr apelio sydd ar gael ar gyfer eich achos penodol chi.

Os ydych yn ystyried gwneud hyn, rhaid i chi sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol yn gyntaf, er enghraifft, gan gyfreithiwr, canolfan gynghori gyfreithiol, y ganolfan gynghori yn eich coleg neu'ch undeb myfyrwyr, neu ganolfan gynghori.

10 Cysylltiadau defnyddiol

Sut i gael gwybod mwy

Ceir amrediad o gysylltiadau a fydd yn gallu eich helpu gyda'ch cwestiynau. Dyma restr o bwyntiau cyswllt a gwybodaeth arall.

- Ar gyfer ymholiadau **cyffredinol** ynghylch cyllid myfyrwyr a sut i wneud cais amdano, cysylltwch â'ch awdurdod lleol, neu Ganolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845.
- Ar gyfer cwestiynau **manwl** ynghylch y cymorth y mae gennych yr hawl i'w gael, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.
- I gael gwybodaeth am help ychwanegol gan y Cronfeydd Ariannol wrth Gefn, cysylltwch ag adran gwasanaethau i fyfyrwyr eich coleg.

Rhestr gyswllt

Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru

Gall myfyrwyr yng Nghymru ddefnyddio **Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru** i gael ystod o wybodaeth ynghylch cyllid myfyrwyr.

Mae Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnig cyngor ar gyfer **ymholiadau cyffredinol**, megis cwestiynau ynghylch:

- pa gymorth ariannol sydd ar gael;
- y broses ymgeisio a'r amserlen;
- cynnydd wrth asesu'ch cais;
- pryd a sut y telir eich grant; a'r
- gwasanaethau ar-lein sydd ar gael trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn.

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein hefyd trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Awdurdodau lleol

Gall myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru gysylltu â'u hawdurdod lleol hefyd. Mae awdurdodau lleol yn cynnig cyngor ynghylch **cwestiynau manwl** sy'n ymwneud â'r cymorth y mae'n debygol y bydd gennych yr hawl i'w gael a chanlyniad eich cais.

Gallwch gael rhestr o fanylion cyswllt awdurdodau lleol trwy droi at y wefan sef www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Os ydych yn yr ysgol o hyd, gall eich athro/athrawes gyrfaoedd roi'r cyfeiriad a'r rhif ffôn i chi.

Llinell wybodaeth Cymorth i Fyfyrwyr

Gall myfyrwyr sy'n byw yng **Nghymru** ffonio **0800 731 9133** i archebu copi o unrhyw rai o'n canllawiau, yn rhad ac am ddim.

Dylai myfyrwyr sy'n byw mewn rhan arall o'r DU fel arfer a myfyrwyr yr UE, droi at y wybodaeth gyswllt ar dudalennau 5 a 23.

Am wybodaeth ynghylch benthyciadau myfyrwyr blaenorol, gallwch gysylltu â:

Student Loans Company Limited
100 Bothwell Street
Glasgow
G2 7JD.
Ffôn: 0800 405 010
Gwefan: www.slc.co.uk

Am wybodaeth ynghylch sut i fod yn athro/athrawes, dylech gysylltu â'r Asiantaeth Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Ysgolion (yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon neu TTA yn flaenorol). Gallwch ffonio'r Llinell Wybodaeth Addysgu ar 0845 6000 991 neu'r Llinell Wybodaeth Addysgu Gymraeg ar 0845 6000 992 neu droi at ei gwefan sef http://www.tda.gov.uk/.

Atodiad 1

Mae'r siartiau canlynol yn cynnig enghreifftiau o'r cymorth ariannol y byddai gan fyfyrwyr mewn gwahanol amgylchiadau personol yr hawl i'w gael.

Myfyriwr sengl, dim plant dibynnol

Incwm	Hawl
Dan £16,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £620. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £745. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £930.
£16,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Gostyngir y grant ffioedd gymaint â £50. **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880.
£16,111 i £24,294	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd fel a ganlyn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570 yn llai £1 am bob £15.74 o incwm (cyn treth) dros £16,110 • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695 yn llai £1 am bob £12.69 o incwm (cyn treth) dros £16,110. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880 yn llai £1 am bob £9.86 o incwm (cyn treth) dros £16,110.
£24,295	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd o £50. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£24,296 i £24,924	Grant cwrs llawn o £1,050. Dim grant ffioedd.
£24,925 i £26,914	Grant cwrs o £1,050 yn llai £1 am bob £2 o incwm (cyn treth) dros £24,925 (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£26,915	Grant cwrs o £50.
£26,916 a throsodd	Dim cymorth.

Myfyriwr sengl, dau blentyn dibynnol

Incwm	Hawl
Dan £19,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £620. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £745. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £930.
£19,110	Grant cwrs llawn o £1,050 Gostyngir y grant ffioedd gymaint â £50. **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880.
£19,111 i £27,294	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd fel a ganlyn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570 yn llai £1 am bob £15.74 o incwm (cyn treth) dros £19,110 • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695 yn llai £1 am bob £12.69 o incwm (cyn treth) dros £19,110. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880 yn llai £1 am bob £9.86 o incwm (cyn treth) dros £19,110.
£27,295	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd o £50 o leiaf. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£27,296 i £27,924	Grant cwrs llawn o £1,050. Dim grant ffioedd.
£27,925 i £29,914	Grant cwrs o £1,050 yn llai £1 am bob £2 o incwm (cyn treth) dros £27,925 (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£29,915	Grant cwrs o £50
£29,916 a throsodd	Dim cymorth.

Myfyriwr priod, dim plant dibynnol

Incwm	Hawl
Dan £18,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £620. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £745. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £930.
£18,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Gostyngir y grant ffioedd gymaint â £50. **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880.
£18,111 i £26,294	Grant cwrs llawn o £1,050. **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570 yn llai £1 am bob £15.74 o incwm (cyn treth) dros £18,110 • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695 yn llai £1 am bob £12.69 o incwm (cyn treth) dros £18,110 • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880 yn llai £1 am bob £9.86 o incwm (cyn treth) dros £18,110.
£26,295	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd o £50 o leiaf. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£26,296 i £26,924	Grant cwrs llawn o £1,050. Dim grant ffioedd.
£26,925 i £28,914	Grant cwrs o £1,050 yn llai £1 am bob £2 o incwm (cyn treth) dros £26,925. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£28,915	Grant cwrs o £50
£28,916 a throsodd	Dim cymorth.

Myfyriwr priod, dau blentyn dibynnol

Incwm	Hawl
Dan £21,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £620. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £745. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £930.
£21,110	Grant cwrs llawn o £1,050. Gostyngir y grant ffioedd gymaint â £50. **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880.
£21,111 i £29,294	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd llawn (neu'r ffioedd a godir gan y coleg, pa un bynnag yw'r swm isaf). **Swm y grant ffioedd** • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 50% a 59% o gwrs amser llawn – £570 yn llai £1 am bob £15.74 o incwm (cyn treth) dros £21,110. • Cwrs sy'n cyfateb â rhwng 60% a 74% o gwrs amser llawn – £695 yn llai £1 am bob £12.69 o incwm (cyn treth) dros £21,110. • Cwrs sy'n cyfateb â gwerth 75% neu fwy o gwrs amser llawn – £880 yn llai £1 am bob £9.86 o incwm (cyn treth) dros £21,110.
£29,295	Grant cwrs llawn o £1,050. Grant ffioedd o £50 o leiaf. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£29,296 i £30,924	Grant cwrs llawn o £1,050. Dim grant ffioedd.
£30,925 i £31,914	Grant cwrs o £1,050 yn llai £1 am bob £2 o incwm (cyn treth) dros £30,925. (Bydd hwn yn berthnasol beth bynnag fo dwyster y cwrs.)
£31,915	Grant cwrs o £50
£31,916 a throsodd	Dim cymorth.

Atodiad 2
Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd y caiff incwm ei asesu.

Mae James yn briod ac yn ennill £14,000 y flwyddyn. Nid yw ei wraig yn gweithio ac nid oes ganddi unrhyw incwm. Mae James yn dilyn cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn, a chodir ffi o £500 ar ei gyfer.

Gan fod James yn briod, £18,110 yw lefel yr incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Gan fod ei incwm ef yn is na hyn ac nad oes gan ei wraig unrhyw incwm, bydd ganddo ef yr hawl i gael cymorth llawn o £500 (y ffioedd a godir gan ei goleg) a £1,050 (y grant cwrs).

Mae Amita yn briod ac mae ganddi bedwar o blant. Nid oes ganddi unrhyw incwm personol, ac mae incwm ei phartner yn £19,500 y flwyddyn. £650 yw swm y ffioedd dysgu a godir ar gyfer ei chwrs. Mae'n astudio ei chwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 60% o gwrs amser llawn.

Gan fod Amita yn briod, ystyrir incwm ei phartner. £23,110 yw lefel yr incwm er mwyn cael cymorth llawn (gan gynnwys y lwfansau o £2,000 ar gyfer ei phartner, £2,000 ar gyfer eu plentyn hynaf, a £1,000 yr un ar gyfer y tri phlentyn arall). Mae incwm teulu Amita yn llai na hyn, felly bydd yn gymwys i gael y cymorth llawn, ac ar gyfer ei chwrs hi, mae hyn yn cyfateb â grant ffioedd o £650 (y ffioedd a godir gan ei choleg) a grant cwrs o £1,050.

Mae Siobhan yn sengl ac mae'n ennill £25,000. £750 yw'r ffioedd dysgu a godir ar gyfer y cwrs a ddewiswyd ganddi. Mae'n astudio ei chwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â dros 75% o gwrs amser llawn.

Gan fod Siobhan yn sengl, £16,110 yw lefel yr incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Mae ei hincwm hi yn uwch na hyn, ond mae'n gymwys i gael rhywfaint o gymorth. Bydd yn cael grant cwrs o £1,013, ond ni fydd yn cael unrhyw grant ffioedd.

Mae gan Simon bartner sifil. Mae Simon yn ennill £15,000 ac mae ei bartner yn ennill £13,000. Mae'n astudio ei gwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 60% o gwrs amser llawn.

Gan fod gan Simon bartner sifil, asesir ei incwm ef ar y cyd ag incwm ei bartner. £18,110 yw'r incwm er mwyn sicrhau cymorth llawn. Gan fod eu hincwm ar y cyd yn werth £28,000, a chan fod Simon yn astudio cwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 60% o gwrs amser llawn, ni fydd yn cael grant ffioedd ond bydd modd iddo gael grant cwrs o £513.

Mae Pauline yn fyfyrwraig a gychwynnodd ar ei chwrs yn 2004. Mae'n 24 oed ac yn byw gyda phartner o'r rhyw arall. £17,500 yw ei hincwm ac mae'n astudio ei chwrs ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn. Mae ei ffioedd dysgu yn £600.

Gan fod Pauline yn fyfyriwr sy'n parhau i ddilyn cwrs yn 2007/2008 ac mae hi dan 25 oed, ni ystyrir incwm ei phartner. Bydd yn gymwys i gael grant ffioedd o £482 a grant cwrs o £1,050.

Gallwch gael copi o'r canllaw hwn trwy ffonio ein llinell wybodaeth ar 0800 731 9133, gan ddyfynnu cyfeirnod SFW/FSPT/V8.

Mae gwasanaeth ffôn testun rhad ac am ddim ar gael ar 0800 328 8988.

Yn ogystal, gallwch gael copïau Braille, copïau ar dâp sain a chopïau print mawr o'r canllaw hwn trwy ffonio'r llinell wybodaeth Rhadffôn.

© Hawlfraint y Goron Mai 2008

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Gallwch gopïo darnau o'r canllaw hwn at ddibenion anfasnachol neu addysgol, ar yr amod eich bod yn cyfeirio at y ffynhonnell.

ISBN: 978 0 7504 4687 7